
Partneriaeth Cydwasanaethau
Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr
Shared Services Partnership
Student Awards Services

# Ymholiadau am Daliadau

## Cwestiynau Cyffredin



Partneriaeth Cydwasanaethau
Gwasanaethau Dyfarniadau
Shared Services Partnership
Student Awards Services

*Medi 2025*

| Cwestiynau | Yr Ymateb |
|---|---|
| **Ymholiadau am Daliadau** | |
| Os byddaf yn gymwys, pryd fydda i'n derbyn taliad fy Mwrsariaeth a’r lwfansau ychwanegol? | Unwaith y byddwch wedi cyflwyno eich cais a'i fod wedi'i gymeradwyo, bydd eich prifysgol hefyd yn ymwybodol o hyn a bydd yn trefnu i chi gael eich talu. Eich prifysgol sy'n gweinyddu taliad y Fwrsariaeth a'i lwfansau ychwanegol ac yn penderfynu pryd y bydd y taliad yn dechrau a pha mor aml y telir y rhandaliadau. Os oes gennych ymholiadau ynghylch eich taliadau, cysylltwch â'ch prifysgol. |
| Ar ôl i mi gyflwyno fy nghais, pa mor hir fydd hi cyn i mi dderbyn diweddariad? | Ar ôl cyflwyno cais, gall gymryd hyd at 20 diwrnod gwaith i'ch cais gael ei adolygu gan Aseswr. Os oes problemau gyda'ch cais, neu os oes angen rhagor o wybodaeth arnom, byddwn yn cysylltu â chi drwy e-bost. |
| Pa mor aml y byddaf yn derbyn y taliadau? | Fel arfer, gwneir taliadau mewn rhandaliadau misol, fel arfer dros gyfnod o 12 mis yn dibynnu ar eich prifysgol. Cysylltwch ag Adran Gyllid eich Prifysgol os oes gennych ymholiadau. |
| Beth fydd yn digwydd i'm taliadau os byddaf yn cymryd seibiant o fy astudiaethau? | Os byddwch yn cymryd seibiant o’ch astudiaethau, bydd y taliadau'n dod i ben a byddant yn cael eu cyfrifo ar sail eich cyfnod presenoldeb. Bydd angen i'ch prifysgol hysbysu Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr am fanylion y seibiant yn yr hyfforddiant a phryd y disgwylir i chi ddychwelyd i astudio. |
| Sut fydd fy ffioedd dysgu yn cael eu talu i mi? | Mae hon yn broses fewnol rhwng y brifysgol ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru. |
| Sut mae fy Mwrsariaeth yn cael ei thalu? | Bydd hon yn cael ei thalu i gyfrif banc y myfyriwr fel y manylir ar eich cyfrif Bwrsariaeth. **Os oes angen i chi newid manylion eich banc, gwnewch hyn ar eich cyfrif Bwrsariaeth ar-lein a rhowch wybod i Adran Gyllid eich Prifysgol.** |
| Pa mor hir mae'n ei gymryd i asesu cais? | Ar ôl i’r holl dystiolaeth gael ei hanfon, gall gymryd hyd at 20 diwrnod gwaith i asesu eich cais a’ch tystiolaeth ategol. Os na fyddwch yn clywed gennym o fewn yr amser hwnnw, peidiwch â phoeni, os oes problemau gyda'ch cais bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi i drafod hyn. |

| | | |
|---|---|---|
| | Sut a phryd y telir Bwrsariaeth GIG Cymru? | Eich prifysgol sy'n gyfrifol am wneud taliadau, felly cysylltwch ag Adran Gyllid eich Prifysgol a fydd yn gallu rhoi rhagor o gyngor i chi. |